COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 29 MAWRTH 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | M Jones | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | JC Spanswick | CA Webster | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, T Giffard, RL Penhale-Thomas a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Cynghorydd Charles Smith | Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio |
| Cynghorydd Philip White | Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Cynghorydd Hywel Williams | Dirprwy Arweinydd |

46. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Y Cynghorydd T Thomas
Y Cynghorydd J Gebbie
Y Cynghorydd T Giffard
Y Cynghorydd RE Young

47. DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd C Webster fuddiant personol yn eitem Agenda 6 gan fod ei mab wedi derbyn Cymorth Gofal Cymdeithasol yn y gorffennol.

48. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Craffu a Throsolwg Corfforaethol ar 14 Rhagfyr 2017 a 25 Ionawr 2018 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

49. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau adroddiad, a nododd:-

a) Yr eitemau y disgwylir iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor i gael ei gynnal ar 30 Ebrill 2018, a cheisio cadarnhad o'r wybodaeth mae ei hangen ar gyfer y cyfarfod wedi'i drefnu ar ôl hynny, nad yw'r dyddiad ar ei gyfer wedi'i gadarnhau eto;
b) Rhestr o ymatebion i sylwadau, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol;
c) Rhestr o eitemau Flaenraglen Waith posibl i'w blaenoriaethu'n ffurfiol a'u dyrannu i bob un o'r Pwyllgorau Craffu a Throsolwg Pwnc

Atodwyd adborth o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol yn Atodiad A yr adroddiad.

Wedi atodi at yr adroddiad yn Atodiad B roedd Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol, oedd yn cynnwys eitemau i gael eu trafod yn y ddau gyfarfod nesaf i gael eu cynnal heddiw a 30 Ebrill 2018.

Wedi atodi hefyd at Atodiad C yr adroddiad oedd Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc oedd yn cynnwys testunau wedi'u blaenoriaethu ac y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol yn Nhabl 1 wedi'i atodi at yr adroddiad, yn ogystal â rhestr o destunau i'r dyfodol arfaethedig yn Nhabl 2.

Atgoffodd y Swyddog Craffu'r Aelodau y gallai Aelodau adnabod eitemau ychwanegol trwy ddefnyddio'r ffurflen feini prawf i'w hystyried yn y dyfodol ar y Flaenraglenni Gwaith Craffu wedi pennu dyddiadau cyfarfodydd Craffu yn y dyfodol yn dilyn cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai sy'n dod.

Cytunodd yr Aelodau i wneud sawl newid i'r Flaenraglenni Gwaith ar gyfer dau gyfarfod nesaf y pedwar Pwyllgor Craffu gwahanol wedi'u trefnu ac adlewyrchwyd y rhain yn y penderfyniad isod, ynghyd â'r eitemau gwreiddiol sydd hefyd yn cael eu rhestru er mwyn cyflawnder.

**PENDERFYNWYD:** Bod yr eitemau agenda canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer dwy rownd nesaf y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol a Phwyllgorau Craffu a Throsolwg Pwnc 1, 2 a 3:-

Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol

18 Mehefin – Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Perfformiad Ariannol Chwarter 4 2017-2018
Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol
26 Gorffennaf – Gweithio ar y cyd â'r Heddlu
Adroddiad Perfformiad Bob Chwarter – Chwarter 4

Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 1

24 Mai – Effeithiau cyllidebol Carchar Parc
4 Gorffennaf – Safonau Ysgolion

Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 2

6 Mehefin - Trafnidiaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol
12 Gorffennaf - Diogelu

Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 3

12 Mehefin – Gwasanaethau Priffyrdd
10 Gorffennaf – i'w gadarnhau

50. CYNLLUNIAU BUSNES CYFARWYDDIAETHAU 2018-19

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad, a'r diben oedd cyflwyno Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau drafft y Cyngor ar gyfer 2018-2019 i'r Pwyllgor sylwi arnynt.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau Cabinet a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, ac yn ei dro, i ymateb i gwestiynau ar eu Cynlluniau Busnes. Ychwanegodd y byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Sefydliadol a Phartneriaeth, yn parhau i fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei fod yn dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr oedd ar wyliau blynyddol ar hyn o bryd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wrth y Pwyllgor mewn ymateb i gwestiwn Aelod, fod y Cyngor yn pwyso ar Network Rail am gysylltiadau rheilffordd wedi'u trydanu a'r oedd am ddylunio cynllun ym Mhencoed ar gyfer y bont newydd, ynghyd â chynllun rheoli traffig. Ychwanegodd ei fod yn hoffi Ysgrifenyddiaeth Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a bod angen i'r Aelod Seneddol priodol drafod y cynllun ymhellach a rhoi caniatâd am ddyddiad i gymeradwyo hyn.

Ymatebodd yr Aelod trwy ddweud y dylid pwyso ar Fargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd am gyfraniad at y cynllun, a threfnwyd iddo gael ei gwblhau erbyn Mawrth 2019, ac mae'n bosibl na fydd trenau wedi'u trydanu ar waith yn y lleoliad erbyn yr amser hon.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod ystod o gynlluniau yr oedd y Cyngor wedi'u cyflwyno i'r fenter Bargen Ddinesig fynd â nhw yn eu blaen, fodd bynnag, roedd awdurdodau a sefydliadau oedd yn cymryd rhan wedi cyflwyno ceisiadau tebyg ar gyfer cynlluniau yn eu hardaloedd hefyd. Felly, pe bai'r cynllun yng ngorsaf drenau Pencoed yn cael ei ychwanegu at y rhain, byddai angen yn gyntaf ei asesu a'i flaenoriaethu yn erbyn eraill oedd wedi'u cyflwyno i'w hystyried.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 106 yr adroddiad lle y nododd Gyflawniad Allweddol, sef bod y Cyngor yn cefnogi 722 o bobl leol i ddatblygu sgiliau fel y gallent fanteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ein rhaglenni Cymunedau dros lwyddo trwy ein Rhaglenni Cymunedau ar gyfer Gwaith, Pontydd i Gyflogaeth a BESP.

Teimlodd y dylai'r grwpiau hyn, i ryw raddau, ryng-gysylltu, fel y galli mwy o wybodaeth gael ei rhannu rhyngddynt, a fyddai wedyn, yn ôl pob tebyg, yn achosi'r nifer hwn i gynyddu ac arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n ymrwymo i'r rhaglenni hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y Cabinet wedi ystyried adroddiad yr wythnos hon o'r enw Rhaglenni Cyflogadwyedd, a phrif ddiben hwn oedd sefydlu tîm unigol i greu ac uno rhaglenni megis y rhai a nodir uchod. Ymrwymir arian gan Lywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd i'r rhaglenni hyn hefyd.

Ychwanegodd yr Aelod cabinet dros Addysg ac Adfywio fod angen hefyd i'r Awdurdod gadw golwg at bobl ifanc sydd dal yn yr ysgol gan fod rhwymedigaeth ganddo fel yr Awdurdod Addysg lleol i gadw golwg ar unigolion hyd at 25 oed (nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac ati), a byddai hyn yn cynorthwyo gydag eu hannog i edrych ar ddatblygu eu sgiliau a fyddai'n eu cynorthwyo i gael cyfleoedd cyflogaeth ar ôl hynny.

Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 124 yr adroddiad a Chyf PAM020/20/22 a'r canran o ffyrdd A, ffyrdd B a ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau, mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd, fod ei Gyfarwyddiaeth yn ceisio cynnal perfformiad gyda chyllideb lai, a'i bod yn bosibl y byddai angen iddo geisio sicrhau cyllideb ychwanegol o gyllid cyfalaf, gan fod angen £2m y flwyddyn ar gyfer pob un o'r 10 mlynedd nesaf dim ond i gynnal cyflwr priffyrdd fel y maent yn bresennol, mewn cyferbyniad a'u cymeradwyo.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 125 yr adroddiad a PAM031, canran y gwastraff blynyddol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi a bod y targed ar gyfer 2019/20 yr un â 2018/19 hy 30%. Gofynnodd a oedd hyn yn realistig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch dewisiadau trin/gwaredu MREC.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y targed hwn yn cael ei bennu fel un cadwrol, gan fod y contract gyda MREC yn un hirdymor, hy am y 12 mlynedd nesaf ac yn anffafriol o ran telerau'r Contract. Yr unig ffordd y byddai'r dangosydd perfformiad hwn yn gwella, yn fwy na thebyg, ychwanegol, oedd trwy newid telerau'r contract ei hunain.

Cyfeiriodd Aelod at yr adroddiad ar dudalen 98 Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a theimlodd y dylai hyn gadarnhau'n groyw yr arbedion (yn nhermau ariannol) y mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'u cyflawni ers llymder a dechrau'r dirwasgiad, a'r arbedion amcan pellach y mae heb eu cyflawni, i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r dirywiad yng ngwasanaethau rheng flaen penodol. Byddai'r cyhoedd wedyn mewn sefyllfa well i fod yn ymwybodol o'r her mae'r awdurdod lleol yn ei wynebu, yn enwedig o ran gwneud toriadau i wasanaethau anstatudol y mae'r Gyfarwyddiaeth yn eu darparu. Ychwanegodd fod y Gyfarwyddiaeth hefyd wedi cefnogi Rhaglen Foderneiddio Ysgolion y Cyngor, ond nid oedd modd iddo weld unrhyw sôn am hyn eto yn ei brif gyflawniadau.

Ychwanegodd y dylai holl adroddiadau eraill y Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau eraill gael eu newid yn yr un modd.

Wrth ystyried y sylwadau hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr dros Gymunedau nad oedd am i'r adroddiad fod yn rhy negyddol, er gwaethaf toriadau y mae ei Gyfarwyddiaeth wedi'u 'wynebu a'r rhai sydd heb ddod eto. Roedd mwy o heriau i'w hwynebu, ond roedd yn hyderus y gellir wynebu'r rhain trwy weithio'n fwy effeithlon ac yn fwy arloesol. Roedd gan ei Gyfarwyddiaeth fwy na £20m o hyd i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus, ychwanegodd.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 199 yr adroddiad a Chyf: FIN3.4.1, nifer y diwrnod gwaith a gollir fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn trwy anafiad diwydiannol (Cyllid), fel y nodir gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch. Gofynnodd beth oedd y targed ar gyfer y flwyddyn i ddod a dangoswyd bod hyn i'w gadarnhau. Ymatebodd Pennaeth Dros Dro Cyllid y byddai edrych ymhellach ar hyn ac yn dod yn ôl ato y tu allan i'r cyfarfod, yn ogystal â diweddaru'r rhan hon o'r Cynllun yn unol â hynny.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 141 yr adroddiad a'r Cyllidebau ar gyfer Dysgu a Strategaeth a Phartneriaethau a Chomisiynu, a nododd y lleihad cynyddol yn hyn ar gyfer blynyddoedd 3, 4 a 5 y MTFS. Gwnaeth yn amcangyfrif mai'r Gyllideb Gyfan Net oedd £108,363 ar gyfer 2017/18 gan leihau bob blwyddyn i £105,439 erbyn 2021/22. Derbyniodd fod hyn yn fynegol ar hyn o bryd, ond gofynnodd i Wahoddedigion sut y gellir lleihau hyn mewn ffyrdd eraill, yn ogystal â pheidio ag effeithio'n rhy lym ar gyllidebau ysgolion. Sylwodd hefyd fod ffigurau presenoldeb ysgolion yn cynyddu yn y rhan fwyaf o ysgolion a gofynnod a yw hyn wedi'i gysylltu mewn unrhyw ffordd â'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth Teulu fod yr arbedion ar gyfer blynyddoedd 3, 4 a 5 fel y nodir uchod yn fynegol ar hyn o bryd. Roedd cyllideb gyffredinol y Gyfarwyddiaeth oddeutu £108m, cadarnhaodd yr Aelod ac o'r gyllideb hon, esboniodd fod oddeutu £88m yn cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion ar gyfer addysg statudol. Roedd yr union ffigwr wedi'i ddirprwyo fodd bynnag yn agosach at £94m i ysgolion, gyda'r £6m ychwanegol sy'n ymwneud â lleoliadau ôl 16. Felly, roedd £20m yn ymwneud a'r gwahaniaethol (hy elfen y gyllideb a gedwir yn ganolog). Ychwanegodd y byddai'n her i wneud yr arbed £630k rheolaidd yn erbyn cyllideb bob blwyddyn yn rhan o'r MTFS cyfredol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth Teulu hefyd fod presenoldeb disgyblion mewn ysgolion wedi gwella a'r oedd yn parhau i wella, ac roedd cyrhaeddiad hefyd yn gwella. Datgelodd data fod ysgolion CBSP, h.y. ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn y prif chwartel yng Nghymru. Yn gyffredinol roedd ffigurau presenoldeb ysgol yn cyfateb i gyrhaeddiad da, gan nad oedd disgyblion yn syrthio'n ôl gyda'u gwaith ac ati, pan oedd eu presenoldeb yn yr ysgol ar lefel disgwyliedig neu uwch. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod ysgolion modern yn amgylchedd gwell i weithio ynddo, ac felly, roedd hyn yn fwy na thebyg yn un o'r ffactorau sydd wedi arwain at y cynnydd yn ffigurau presenoldeb.

Nododd Aelod o'r adran hon o'r adroddiad fod amcan orwariant o £304k ar gyfer costau Trafnidiaeth Ysgol. Teimlodd y dylid edrych ar ffyrdd o dorri hyn trwy ddarparu trefniadau trafnidiaeth a rennir gydag eraill, hy Gwasanaethau Cymdeithasol neu hyd yn oed fentrau teithio i'r ysgol awdurdodau cymdogol.

Cyfeiriodd Aelod at dudalennau 143/144 yr adroddiad, a phrif gyflawniadau'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth Teulu, oedd yn sylweddol o ran eu nifer. Teimlodd mai gwybodaeth megis hyn oedd angen ei gwneud ar gael i'r cyhoedd, er mwyn adlewyrchu'r gwaith gwych yr oedd y Gyfarwyddiaeth hon yn ei wneud, yn wyneb dirwasgiad. Gan gyfeirio at dudalen 160 yr adroddiad, roedd hefyd yn falch o weld y cynnydd da sy'n cael ei wneud mewn themâu arlwyo, ac roedd diddordeb ganddi wybod mwy am rai o'r projectau arloesol hyn.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 232 yr adroddiad a Chyf: DOPS4, disgrifiad y dangosydd perfformiad o gynyddu nifer y rhyngweithiadau gan ddinasyddion ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook a Twitter) a noddodd mai'r ffigwr go iawn ar gyfer 2016-17 oedd 11.3% gyda tharged ar gyfer y 2 flynedd ganlynol o gynnydd 5% ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn. Gofynnodd a fyddai hyn yn golygu mai 11.8% fyddai'r targed felly ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaeth Gweithredol a Phartneriaeth y byddai hyn yn 5% ychwanegol ar darged 2017-18 a 2018-19, sy'n golygu mai 16.3% fyddai'r targed ar gyfer y ddwy flynedd honno.

Ychwanegodd yr Aeloda Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'r cynigion trawsnewid digidol oedd i gael eu cyflwyno gan gynnwys rhaglenni ffôn newydd (ac o bosibl Skype for Business) yn cynorthwyo gyda bwrw'r targed mwy hwn.

Cyfeiriodd y cadeirydd at dudalen 216 yr adroddiad a Chyllideb y Gwasanaethau Rheoliadol gan gyfeirio'n benodol at Safonau Masnach. Yn 2017-18, £351k oedd hyn ond byddai'n cael ei gynyddu i £397k ar gyfer 2018-19, y gwnaeth hi ei gyfrif fel cynnydd o 12%. Yna cynigwyd lleihadau mynegol ar gyfer y tair blynedd yn dilyn 2018-19 ,er y disgwyliwyd y byddai'r gyllideb ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn yn fwy na'r hyn a ddyrannwyd yn 2017-18.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod cydweithrediad y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi arwain at arbedion yn y 3 Awdurdod sy'n cymryd rhan, er fel ardaloedd eraill o'i Gyfarwyddiaeth, byddai angen arbed arian mewn blynyddoedd yn y dyfodol i gyd-fynd â thoriadau pellach a ddisgwyliwyd (ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru). Ychwanegodd i'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 helpu i gydbwyso lleihadau eraill yn y Gwasanaethau Rheoliadol, yn enwedig yn yr Adran Drwyddedu lle mae llai o incwm wedi bod yn dod i mewn dros y blynyddoedd diweddar.

Ychwanegodd fod yr Adran Dai yn mynd i gael ei hailstrwythuro a byddai hyn ynghyd â rhywfaint o gyllid grant wedi'i ychwanegu at orwariant, yn galluogi ymrwymo buddsoddiad i dai argyfwng. Esboniodd fod hyn yn bwysig am nifer o resymau, megis helpu plant sy'n gadael gofal neu sy'n dechrau derbyn gofal ac sy'n cael trafferth ymdopi gyda phontio o'r fath. Roedd yr Adran wedi gweithio'n agos gydag Adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol am y rheswm hwn, yn ogystal â chefnogi unigolion sy'n agored i niwed a allai gael eu hunain yn cael eu troi allan ac yn ddigartref ar ôl hynny, ac fel Rhieni Corfforaethol, roedd ar yr Aelodau (a swyddogion) ddyletswydd a chyfrifoldeb i ofalu am y bobl hyn, yn enwedig yr ifanc a'r hen oedd mewn sefyllfaoedd mwy agored i niwed na grwpiau oedran eraill. Hefyd roedd yr Awdurdod wedi'i rwymo gan ddeddfwriaeth i raddau i ofalu am y digartref.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 232 yr adroddiad a DOPS4 a'r P.I i gynyddu nifer y rhyngweithiadau gan ddinasyddion ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook a Twitter). Nododd mai 11.3% oedd hyn yn 2016-17 a bod cynnydd o 5% ar gyfer y blynyddoedd 2017-18 a 2018-19. Gofynnodd sut y codwyd y ganran hon ar gyfer 2016-17, a sut gellid pennu targedau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol a fyddai mewn unrhyw ffordd yn gywir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y gellir holi'r rhain trwy systemau sy'n cael eu defnyddio gan y tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, a'r dulliau a fabwysiedir o ran rhyngweithio gyda a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd y targedau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ar sail yr uchod a pherfformiad yn y gorffennol, ond roeddent yn amlwg yn amcangyfrifon, ychwanegodd.

Dywedodd yr Aelod y gallai fod yn well rhannu Facebook a Twitter ar gyfer y P.I. hwn yn y dyfodol, er mwyn cael targedau mwy cywir ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ar ôl hynny, gan eu bod yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, h.y. rhedodd Facebook ar gylch 28 diwrnod gan lithro wedyn, ond nid oedd hyn yn wir i Twitter.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y byddai'n trafod y pwynt hwn ymhellach gyda'r Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, i weld a ellid/a ddylid rhannu'r rhain yn y dyfodol yn dau P.I. ar wahân ar sail cyngor yr Aelodau.

Gwnaeth Aelod bwynt y dylai Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau gysylltu'n agosach â Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaeth Gweithredol a Phartneriaeth fod Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau yn ddogfennau mwy mewnol tra bod y Cynllun Corfforaethol 2018-2022 yn ddogfen fewnol ac allanol sydd ar gael ir cyhoedd ac sydd hefyd yn cael ei chyhoeddi ar-lein.

Teimlodd yr Aelod ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn cydnabod bod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu agwedd 'Un Cyngor' o ran cyflawni ei fusnes a darparu gwasanaethau.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod yr arbedion ariannol y mae eu hangen yn rhan o'r MTFS wedi'u nodi yn y Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau a gofynnodd a yw'r Aelod am i'r rhain gael eu dadansoddi'n fwy nag y maent wedi'u dadansoddi yn y dogfennau hyn.

Ymatebodd yr Aelod gan ddweud ei fod yn teimlo bod angen i'r Cyngor esbonio'n fwy groyw i'r cyhoedd yr heriau sydd o'i flaen a'r arbedion pellach y mae angen eu gwneud, ar ben y rhai hynny mae eisoes wedi'u gwneud.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 117 yr adroddiad a DCO16.8 P.I, ynghylch nifer o asedau'r Cyngor (CAT) wedi'u trosglwyddo i'r gymuned i'w rhedeg. Nododd na chymerir awenau dim o'r rhain yn 2016-17, a bod y targed eithaf cymedrol ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Teimlodd y dylai dyheadau ar gyfer y P.I. hwn fod yn uwch.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau nad oedd y targedau ar gyfer CAT yn uchelgeisiol ond eu bod yn realistig. Roedd yn anodd argyhoeddi grwpiau cymunedol a Chlybiau a Sefydliadau'n fwy penodol i gymryd awenau Pafiliynau Chwaraeon ac ystafelloedd newid Clybiau, yn enwedig gan fod nifer sylweddol o'r rhain mewn cyflwr gwael a bod angen gwneud llawer o waith i'w gwneud yn fwy addas at y diben, y byddai rhywfaint yn gostus, hy gwaith strwythurol yn lle gwaith cynnal a chadw'n unig. Cymysgwyd hyn â'r ffaith bod Clybiau, hy timau pêl-droed, rygbi a chriced yn cael cymhorthdal o 80% gan y Cyngor dan drefniadau cyfredol, gyda'r awdurdod lleol yn bod yn gyfrifol am gynnal yr adeiladau yn ogystal ag unrhyw waith cynnal a chadw mae angen ei wneud o bryd i'w gilydd. Pe bai Clybiau a Sefydliadau ac ati yn gweithredu unrhyw ased o'r fath yn llwyr trwy CAT, yna byddent yn colli eu cymhorthdal, ac yn gwbl gyfrifol am y gwaith parhaol o gynnal a chadw'r adeilad dan sylw.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio bod cymorth posibl ar gyfer CATs ac yn 2018/19 bydd y gymuned yn cymryd awenau caeau Chwarae Bryntirion trwy CAT.

51. <u>CYNLLUN CYFLAWNI I'R DYFODOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT.</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a rannodd gyda'r Pwyllgor Gynllun Cyflawni i'r Dyfodol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Esboniodd fod y Cyngor wedi lleihau'r gyllideb gan fwy na £12m ym maes gofal cymdeithasol a llesiant yn y 4 blynedd diwethaf. Cyflawnwyd hyn trwy wneud pethau gwahanol, hy ailfodelu, ail-gyflunio, ailstrwythuro a datblygu ffyrdd newydd o weithio ynghyd gyda modelau gwasanaeth newydd. Y strategaeth ar gyfer yr ychydig o flynyddoedd nesaf oedd i reoli galw a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn lleihau

dibyniaeth a galluogi pobl i wneud y mwyaf ar eu hannibyniaeth. Mae angen cyflawni hyn o fewn y gyllideb gyfredol ac ar ôl ystyried y gorwariant cyfredol o £2.2m.

Wedi atodi at Atodiad 1 yr adroddiad oedd y Cynllun Cyflawni i'r Dyfodol ("y Cynllun"), fodd bynnag nodwyd bod y Cynllun yn ddogfen sy'n datblygu ac y gallai'r camau gweithredu a'r targedu wedi'u cynlluniau ynddi newid o bosibl.

Mae dwy ran i'r Cynllun sef Adran A – sy'n tynnu sylw at waith wedi'i gwblhau ac arbedion MTFS wedi'u cyflawni hyd yn hyn a diffygion MTFS, ac Adran B - y Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r camau gweithredu wedi'u cynllunio i gael eu cymryd er mwyn cyflawni arbedion MTFS angenrheidiol a gwneud y mwyaf ar gyfleoedd incwm erbyn Mawrth 2019.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod arbedion MTFS o fwy na £400k wedi'u cyflawni yn 2017/18 dan y Cynllun trwy adolygu a gweithredu modelau cyflawni newydd ar gyfer contractau partneriaeth. Roedd diffyg o £237k o hyd y mae camau gweithredu ychwanegol yn cael eu datblygu ar ei gyfer, fel y nodir yn y Cynllun.

Ychwanegodd fod Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol wedi'i sefydlu i fonitro ac adolygu Cynllun y Gyfarwyddiaeth. Roedd y Bwrdd i gael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac roedd Swyddogion yn sefyll arno fel y dangosir ym mharagraff 4.6 yr adroddiad.

Wedi atodi at Atodiad 2 yr adroddiad roedd tabl yn nodi trefniadau llywodraethu yn y Gyfarwyddiaeth.

Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud mai'r gorwariant a ragwelir yn adroddiad Monitro Cyllideb y Cabinet – chwarter 3 oedd £200k yn erbyn gwasanaethau pobl hŷn. Food bynnag, ar gyfnod 10, roedd y gorwariant a ragwelwyd wedi lleihau i £70k. Byddai hyn ynghyd â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyrannu cyllid grant pwysau'r gaeaf i awdurdodau lleol yn golygu y bydd gwasanaethau pobl hŷn o leiaf yn talu eu costau erbyn diwedd y flwyddyn.

O ran Plant Sy'n Derbyn Gofal, £1.049m oedd y gorwariant a ragwelwyd yn adroddiad monitro cyllideb y Cabinet – chwarter 3. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i blant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau Allan o'r Sir gyda lleoliadau o'r fath yn costio hyd at £460k y flwyddyn y lleoliad.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr Aelodau fod y Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd mewn sefyllfa ariannol well eleni na'r llynedd sy'n adlewyrchu Strategaeth y Gwasanaeth i leoli mwy o blant mewn lleoliadau mwy cost-effeithiol.

Yn yr un modd, roedd lleoliadau maethu annibynnol cost uchel hefyd wedi lleihau o gyfartaledd o 90 yn 2016/17 i gyfartaledd o 75 yn 2017/18. O ganlyniad, mae cyfartaledd nifer o'r lleoliadau mewnol hyn wedi cynyddu o gyfartaledd o 208 yn 2016/17 i 217 eleni (2017/18) ar gyfartaledd gost flynyddol llai y lleoliad o £18k. Gwnaeth y newid hwn hefyd dystiolaethu Strategaeth y gwasanaeth i leoli plant mewn lleoliadau mwy cost-effeithiol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Cynllun Monitro Ariannol dan y Cynllun Cyflawni wedi'i sefydlu i gynorthwyo gyda sicrhau'r diffyg sy'n weddill, a fyddai'n cael ei adolygu bob chwarter yn ogystal â phob mis.

Gofynnodd y Cadeirydd ym mha chwartel roedd CBSP o ran cyfartaledd wariant fesul pen ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant.

Dywedodd Pennaeth Cyllid Dros Dro ein bod yn yr un sefyllfa â'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yng Nghymru o ran gwariant fesul pen, er bod y gost i gefnogi oedolion yn amlwg yn is nac ar gyfer plant, o ganlyniad i wariant uchel sy'n gysylltiedig â chostau plant sy'n derbyn gofal.

Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.11 yr adroddiad, a'r costau uchel parhaol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Gofynnodd a oes unrhyw gwmpas i gydweithredu gydag awdurdodau cymdogol i gynnig cyfleusterau cymorth mewn rhanbarthau lleol, yn lle trefniadau Allan o'r Sir drud yn rhan o fenter o fath 'Buddsoddi i Arbed'. Gellir o bosibl gyd-lynu hyn trwy Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod rhywfaint o waith rhanbarthol wedi'i gwblhau o ran yr uchod, trwy Wasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol. Mae rhywfaint o waith hefyd wedi'i wneud gyda darparwyr penodol gyda'r bwriad o leihau rhai elfennau o gostau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a lleoliadau drud. Ychwanegodd fod darn o waith yn cael ei ystyried a allai arwain at newid safle Glan-yr-Afon at y diben o ystyried dull masnachol o ddarpariaeth ofal sy'n addas i bobl ifanc ym Mhen-y-bont, ond hefyd fel cyfleuster lle y gellir gwerthu lleoedd yn rhywle arall y tu allan i'r ardal, a fyddai wedyn o bosibl yn dod ag incwm y mae ei angen yn fawr i mewn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn anodd rheoli nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddigonol, a'i bod yn gostus i'r Awdurdod, ac felly roedd CMB yn edrych ar fentrau penodol, megis yr uchod, a fyddai'n cael eu rhannu gyda'r Cabinet yn y man yn unol â hynny.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod rhywfaint o gymorth i gefnogi plant sy'n mynd i mewn i amgylcheddau gofal amrywiol trwy ffyrdd cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, megis 'Reflex' ar gyfer trefniadau gofal mewn perthynas ag ôl-enedigaeth a menter debyg o'r enw 'Baby Mind'.

Cyfeiriodd Aelod at Atodiad 1, Adran B y Cynllun Cyflawni a statws RAG (Coch, Oren, Gwyrdd) y targedau arbed amrywiol a ddangoswyd a chan fod y flwyddyn ariannol newydd yn dechrau yn y dyddiad nesaf, gofynnodd pryd byddai'r holl arbedion wedi'u neilltuo yn cael eu gwireddu.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod hyn yn waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac y byddai'r broses o dalu'n ôl diffyg y Gyfarwyddiaeth o ran arbedion yn cael ei monitro'n agos fel mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi dweud ynghynt yn y ddadl, hy bob mis, bob chwarter ac yn y pen draw bob blwyddyn, gyda'r bwriad o gyflawni'n llawn yr holl orwariant.

Yn olaf, mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cadeirydd ynghylch y Cyngor yn codi tâl ar awdurdodau lleol eraill i ddefnyddio gwasanaethau penodol a ddarperir ar gyfer yr Awdurdod fel y nodir ar dudalen 260 yr adroddiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro y byddai hyn yn cael ei ymchwilio ymhellach fel y cadarnheir yn adran hon yr adroddiad, ac o bosibl ei drafod yng nghyfarfod y Panel Gwerthuso ac Ymchwilio'r Gyllideb yn y dyfodol, yn rhan o gyflawni arbedion yn y dyfodol.

**Casgliadau:**

- Gofynnodd y Pwyllgor fod y statws RAG yn cael ei gwblhau yn y cynllun ariannol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

- Cynigiodd y Pwyllgor godi tâl am bethau fel diwrnodau Darganfod fel dull o greu incwm.

- Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiad gwybodaeth ar Gynllun Ariannol y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob cyfarfod y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol fel y gallant barhau i fonitro'r cynllun a nodi unrhyw bryderon yn ôl yr angen.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

Gofynnodd y Pwyllgor ei fod yn derbyn manylion o'r cyfartaledd wariant fesul pen ar gyfer oedolion a phlant ar wahân a lle rydym yn sefyll fel Awdurdod o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

52. EITEMAU BRYS

Dim.

53. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio) (Cymru 2007, dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Cadarnhaodd Uwch Swyddog y Gwasanaeth Democrataidd – Pwyllgorau nad oedd yr eitem hon yn destun prawf buddiant y cyhoedd am resymau braint proffesiynol gyfreithiol ac y dylid ei hystyried yn breifat. Felly nid oedd buddiant y cyhoedd yn berthnasol mewn perthynas â'r eitem hon.

54. MYNEDIAD AT WYBODAETH

Daeth y cyfarfod i ben am 13:30